

Atodiad 4 – Cwestiynau Cyffredin Partneriaeth Pensiwn Cymru: Achos Busnes Fit for Future

Beth yw Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)?

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yw'r trefniant pŵlio sy'n cynrychioli pob un o'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru. Wedi'i sefydlu'n ffurfiol yn 2015 (ac wedi'i strwythuro yn 2017), fe'i ffurfiwyd i greu cronfa buddsoddi ar gyfer y cronfeydd hyn, gan ysgogi eu perthnasoedd gwaith agos presennol. Mae PPC eisoes wedi cyflawni darbodion maint, effeithlonrwydd gweithredol, a gwell deilliannau buddsoddi ar gyfer ei gronfeydd sy'n aelodau, tra hefyd yn canolbwyntio ar nodi buddsoddiadau lleol a sefydlu polisiâu buddsoddi cyfrifol. Fel cronfa i genedl ddatganoledig, mae hefyd yn ystyried nodweddion diwylliannol a chenedlaethol unigryw Cymru ac yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth fel Deddf yr Iaith Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Pam fod PPC yn bwriadu sefydlu Cwmni Rheoli Buddsoddiad annibynnol a reoleiddir gan yr FCA (IM Co)?

Mae'r cynnig i sefydlu IM Co annibynnol a reoleiddir gan yr FCA mewn ymateb i ymgynghoriad "Fit for the Future" Llywodraeth y DU (Tachwedd 2024) a'r canllawiau dilynol. Amlinellodd yr ymgynghoriad safonau gofynnol ar gyfer cronfeydd asedau CPLIL, gan gynnwys y gofyniad i gronfeydd fod yn gwmnïau rheoli buddsoddiad a reolir gan yr FCA gyda'r arbenigedd a'r gallu i weithredu a chynghori ar strategaethau buddsoddi. Mae PPC wedi ystyried opsiynau eraill yn drylwyr, megis uno â chronfa CPLIL arall yn Lloegr neu ddod yn gleient i un ond casglodd mai adeiladu ei IM Co ei hun yw'r dull mwyaf effeithiol a ffafriol o fodloni gofynion y Llywodraeth tra'n cadw manteision hanfodol i Gymru a chynnal y diwylliant cydweithredol unigryw o fewn PPC sy'n bodoli heddiw.

Beth yw'r manteision allweddol y mae PPC yn eu gweld wrth aros yn gronfa annibynnol a sefydlu ei IM Co ei hun?

Mae yna lawer o fanteision grymus i aros yn gronfa annibynnol a sefydlu IM Co., ac yn allweddol ymhlith y rhain yw:

- 1) Adnodd pwrpasol sy'n gweithio gyda chyrff ac asiantaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddod o hyd i, asesu a rheoli buddsoddiadau lleol ac effaith, hyrwyddo twf economaidd a chefnogi cymunedau yng Nghymru.
- 2) Ymhen amser, mae buddion ariannol a llywodraethu ychwanegol y disgwylir iddynt ragori ar gostau ychwanegol y model gweithredu newydd. Er enghraifft, byddem yn disgwyl i ystod gynyddol o weithgareddau rheoli portffolio ar asedau marchnad rhestredig a phreifat gael eu dwyn o dan reolaeth fewnol dros amser, yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth.
- 3) Arbedion uniongyrchol i awdurdodau gweinyddu o drosglwyddo gweddill swyddogaethau gweithredu buddsoddi i IM Co PPC, canoli adrodd a chanoli'r ddarpariaeth o gyngor buddsoddi strategol yn IM Co PPC (i ddechrau trwy gaffael partner allanol cystadleuol gan yr IM Co) ac, yn y tymor hwy, mwy o arbedion trwy adeiladu tîm cynghori mewnol.

4) Trosglwyddo cydrannau o'r model cyfuno PPC presennol i'r model gweithredu newydd (gan gynnwys strwythurau cerbydau cyfunol presennol), parhau i elwa o raddfa fyd-eang a phŵer prynu partneriaid darparu gwasanaethau (ar hyn o bryd yn cynnwys Russell Investments, Blackrock, GCM Grosvenor, CBRE, Schroders a Waystone). Bydd gan yr IM Co y gallu i adolygu a disodli darparwyr gwasanaeth dros amser lle teimlir y gellir rheoli gwasanaethau yn fewnol. Sbardun allweddol ar gyfer hyn fyddai cynhyrchu effeithlonrwydd pellach a chael gostyngiadau ffioedd trwy gaffael cystadleuol (cyfrifoldeb IM Co PPC yn y dyfodol).

5) Cyflawni nodau buddsoddi cyfrifol penodol rhanddeiliaid CPLIL yng Nghymru. Enghreifftiau o hyn yw'r datblygiad gan Blackrock o gerbyd buddsoddi goddefol ar gyfer PPC, gydag ystod o fandadau goddefol wedi'u halinio'n benodol â pholisïau buddsoddi cyfrifol PPC, ynghyd â mandad PPC pwrpasol ar gyfer ecwiti gweithredol cynaliadwy a reolir gan Russell Investments.

6) Cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth mewn buddsoddi CPLIL yng Nghymru, creu cyfleoedd gyrfa a gwella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru.

7) O safbwynt ymarferol, mae parhau â chronfa annibynnol i Gymru yn ein galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol ynghylch Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r drefn archwilio wahanol sy'n bresennol yng Nghymru.

8) Mae'r rhesymeg dros gadw cronfa CPLIL annibynnol ar gyfer Cymru wedi'i dogfennu'n dda yng nghyflwyniad yr achos busnes. Fodd bynnag, un o'r ystyriaethau allweddol oedd osgoi costau diangen wrth drosglwyddo i drefniadau cyfuno amgen.

Sut fydd PPC yn bwriadu sefydlu'r IM Co a reolir gan yr FCA erbyn y dyddiad cau ym mis Mawrth 2026?

Mae gan PPC gynllun gweithredu ar waith i sefydlu'r IM Co erbyn dyddiad cau'r Llywodraeth ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Mae hyn yn cynnwys prosiect strwythuredig gydag ymgynghorwyr allanol a phartneriaid cyflenwi strategol presennol sy'n cefnogi swyddogion awdurdod gweinyddu. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- **Llwybr Llywodraethu:** Sicrhau cymeradwyaethau llywodraethu lleol angenrheidiol gan bob un o'r wyth awdurdod gweinyddu.
- **Penodi Uwch:** Blaenoriaethu recriwtio rolau uwch reolwyr allweddol ar gyfer yr IM Co, fel y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Risg, cyn y cais FCA.
- **Cais yr FCA:** Cwblhau a chyflwyno'r cais am awdurdodiad FCA, gyda'r nod i hyn ddigwydd erbyn mis Medi, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr cydymffurfio ac ymgynghorwyr cyfreithiol.
- **Caffael angenrheidiol i gyflawni'r Model Gweithredu Targed:** Bydd contractau presennol yn cael eu trosglwyddo i'r IM Co lle bo hynny'n bosibl, gan leihau tarfu a chostau. Yn ogystal, bydd IM Co yn ymgymryd â chaffaeliadau newydd ar gyfer gwasanaethau fel partneriaid darparu cyngor buddsoddi, tra'n defnyddio perthnasoedd presennol lle bo hynny'n bosibl a chydymffurfio â chyfraith gaffael.


- **Trosglwyddo Asedau:** Mae PPC wedi dadansoddi asedau heb eu cyfuno ac mae'n bwriadu eu trosglwyddo i ddatrysiadau cronfeydd presennol neu newydd erbyn mis Mawrth 2026, gan sicrhau bod mwyafrif helaeth yr asedau nad ydynt wedi'u cyfuno yn cael eu rheoli mewn cronfeydd.
- **Bwrdd a Swyddogion Gweithredol:** Sefydlu Bwrdd IM Co i oruchwyllo'r broses a phenodi swyddogion gweithredol Uwch Swyddogaeth Rheoli (SMF) i arwain materion gweithredol a bod yn wyneb i'r cais FCA tan y dyddiad "Mynd yn fyw". Er mwyn rhoi lle i bwysau amser cychwynnol a dibyniaethau prosiect allweddol (h.y. cyflwyno cais FCA) efallai y bydd angen ystyried rhai penodiadau interim yng nghapasi't'r Bwrdd a swyddogion gweithredol.
- **Penodiadau pellach:** Ymgymryd â phenodiadau pellach angenrheidiol i sicrhau y gall yr IM Co weithredu o fis Mawrth 2026 fel yr amlinellir yng nghyflwyniad achos busnes PPC i'r Llywodraeth.

Sut bydd yr awdurdodau gweinyddu yn cynnal goruchwyliaeth a llywodraethu'r IM Co PPC newydd?

Bydd y Model Gweithredu Targed newydd yn darparu mecanweithiau llywodraethu gwell, gan adeiladu ar y rhai sydd eisoes ar waith (Pwyllgorau Pensiwn, Byrddau Pensiwn, Gweithgor Swyddogion, Cyd-bwyllgor Llywodraethu). Yn benodol, bydd nifer o faterion penderfynu allweddol yn cael eu cadw ar gyfer Bwrdd Cyfranddalwyr sydd newydd ei greu yn ôl y diagram isod.

Mae aelodaeth y Bwrdd Cyfranddalwyr a'r Bwrdd IM Co i'w benderfynu o hyd. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd pob un o'r wyth awdurdod gweinyddu yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Cyfranddalwyr sy'n adlewyrchu strwythur goruchwyllo presennol o dan drefniadau cyfredol ar gyfer PPC (h.y. goruchwyllo aelodau a swyddogion, ymgynghorydd goruchwyllo cronfa). Bydd cyfranddalwyr yn cadw hawl 'un gronfa, un bleidlais' fel sy'n digwydd o dan y trefniadau presennol.

Target Operating Model: IM Co & Client-side - Governance



Bydd rôl Pwyllgorau Pensiwn yn parhau i fod yn hollbwysig, gan osod y strategaeth fuddsoddi a'r gofynion ar gyfer gweithredu'r dyraniad asedau strategol ar ran eu priod awdurdod gweinyddu. Bydd Pwyllgorau Pensiwn yn goruchwyllo gweithrediad a pherfformiad yr IM Co, gan sicrhau ei fod yn perfformio yn unol ag amcanion y cytundeb cyfranddalwyr ac amcanion yr awdurdod gweinyddu unigol. Bydd Cadeirydd pob Pwyllgor Pensiwn yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Cyfranddalwyr.

Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cadw ei rôl oruchwyllo a llywodraethu'r awdurdod gweinyddu, y disgwylir iddo ymestyn i oruchwyllo trefniadau cyfuno a chefnogi'r Pwyllgor Pensiwn yn unol â hynny fel cyfranddaliwr i'r IM Co.

Pa wasanaethau fydd yr IM Co PPC newydd yn eu darparu?

Bydd yr IM Co PPC yn darparu ystod o wasanaethau i'r awdurdodau gweinyddu fel ei gleientiaid. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan dimau ymroddedig o fewn yr IM Co a'u cefnogi i ddechrau gan bartneriaid cyflenwi strategol allanol, gyda'r bwriad o gynyddu galluedd mewnol dros amser. Mae'r gwasanaethau arfaethedig yn cynnwys:

- **Cyngor Buddsoddi:** Darparu cyngor buddsoddi strategol i'r awdurdodau gweinyddu.
- **Gwasanaethau Gweithredu'r Strategaeth:** Gweithredu'r strategaeth a osodwyd gan awdurdodau gweinyddu (e.e. dewis rheolwyr, ailgydbwyso, rheoli llif arian).
- **Gwasanaethau Buddsoddi Lleol:** Cyrchu, asesu a rheoli cyfleoedd buddsoddi lleol yng Nghymru a'r DU ehangach.
- **Rheoli Asedau Etifeddiaeth:** Rheoli asedau etifeddiaeth wedi'u nodi yn unol â'r mandad y cytunwyd arnynt gan awdurdodau gweinyddu, gan sicrhau eu bod o dan reolaeth cronfa o'r diwrnod cyntaf.

- **Gwasanaethau Eraill:** Gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau canolog ar draws yr holl asedau ar gyfer pob awdurdod gweinyddu.

Beth yw'r costau disgwyltiedig sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg IM Co PPC?

Mae sefydlu IM Co PPC yn cynnwys costau sefydlu a chostau rhedeg parhaus. Mae PPC wedi amcangyfrif cyllideb prosiect o oddeutu £2.9 miliwn ar gyfer cyflawni'r prosiect, sy'n cwmpasu ymgynghorwyr cyfreithiol, cymorth cydymffurfio arbenigol, ymgynghorwyr buddsoddi, a rheolwyr prosiectau, yn ogystal â chostau cyflog ar gyfer personél IM Co a gyflogwyd cyn mis Mawrth 2026.

Rhagwelir y bydd costau rhedeg blynyddol ychwanegol amcangyfrifedig y model gweithredu newydd ar Ddiwrnod 1 (Mawrth 2026) yn £5-5.5 miliwn ar ôl cyfrif am arbedion costau awdurdod gweinyddu. Disgwylir i'r costau hyn godi i oddeutu £8-9 miliwn bob blwyddyn wrth i'r IM Co gynyddu ei niferoedd staff mewnol (o tua 16 ar Ddiwrnod 1 i 32 disgwyltiedig o fewn 2-3 blynedd).

Yn ogystal, bydd angen cyfalaf rheoleiddio o tua £5m – 10m gan yr awdurdodau gweinyddu.

Sut bydd IM Co PPC yn darparu gwerth am arian?

Bydd y model IM Co annibynnol yn darparu gwerth am arian trwy sawl mecanwaith:

- **Manteision Graddfa Parhaus:** Bydd yr IM Co yn parhau i elwa o raddfa fyd-eang a phŵer prynu partneriaid cyflenwi strategol presennol a newydd ar gyfer gwasanaethau fel gweithrediadau cronfeydd a rheoli buddsoddiadau dirprwyedig.
- **Mwy o Reolaeth Fewnol:** Dros amser, mae IM Co PPC yn bwriadu ymgymryd â nifer cynyddol o gyfrifoldebau rheoli portffolio yn fewnol, a disgwylir iddo leihau costau partneriaid allanol ymhellach a darparu arbedion cost ychwanegol.
- **Llai o Gostau Lleol:** Bydd y model gweithredu newydd yn lleihau costau lleol awdurdodau gweinyddu sy'n gysylltiedig â chynghor buddsoddi, adrodd, ac unrhyw weithgareddau gweithredu buddsoddiad sy'n weddill wrth i'r swyddogaethau hyn gael eu trosglwyddo i'r IM Co.
- **Adolygiad Rheolaidd o Ddarparwyr Gwasanaeth:** Bydd gan yr IM Co y gallu i adolygu darparwyr gwasanaeth o bryd i'w gilydd i sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth gorau yn y farchnad a ffioedd cystadleuol.
- **Arbedion Cyffredinol:** rhagwelir y bydd gweithredu'r cynigion "Fit for the Future" yn lleihau costau rheoli portffolio allanol i 34bps erbyn 2030, sy'n cynrychioli arbedion blynyddol o oddeutu £25m erbyn 2030.
- **Perfformiad Buddsoddi:** fel yr oedd y rhesymeg dros gyfuno yn ôl yn 2016/17, disgwylir i berfformiad buddsoddi cryf dros amser orbwyso costau ychwanegol rhedeg yr IM Co dros amser.

Beth yw dyheadau tymor hwy PPC y tu hwnt i fis Mawrth 2026?

Y tu hwnt i'r nod uniongyrchol o fodloni gofynion y Llywodraeth erbyn mis Mawrth 2026, mae gan PPC ddyheadau tymor hwy, yn enwedig wrth edrych tuag at 2030 a thu hwnt:

- **Galluoedd Mewnol Gwell:** Nod IM Co PPC yw gwella ei fodel gweithredu ymhellach trwy ddatblygu mwy o alluoedd rheoli portffolio mewnol ar gyfer asedau marchnad rhestredig a phreifat. Bydd hyn yn golygu cynyddu maint ac arbenigedd tîm IM Co, o bosibl dyblu personél o fewn y 2-3 blynedd gyntaf a phenodi rheolwyr portffolio ychwanegol a Phennaeth Buddsoddi Cyfrifol.
- **Arweinyddiaeth mewn Buddsoddiad Lleol ac Effaith:** Mae gan PPC uchelgais i ddod yn arweinydd mewn buddsoddiad lleol ac effaith, gan ymgysylltu'n weithredol a chydweithio â chronfeydd buddsoddi CPLIL eraill ar gyfleoedd buddsoddi'r DU.
- **Llai o Ddibyniaeth ar Bartneriaid Allanol:** Dros amser, mae PPC yn disgwyl lleihau'r defnydd o bartneriaid buddsoddi strategol ar gyfer gweithredu buddsoddi a gwasanaethau cyngor buddsoddi wrth i gapasiti a gwytnwch mewnol gael eu hadeiladu.
- **Cynllun 5 Mlynedd Manwl:** Unwaith y bydd IM Co PPC wedi'i sefydlu, bydd ei uwch dîm rheoli yn datblygu cynllun 5 mlynedd manylach ar gyfer y Bwrdd Cyfranddalwyr, gan flaenoriaethu datblygu'r model gweithredu i gyflawni'r gwerth mwyaf.